

Rhaid wynebu'r dewis ynni – 'ni allwn ddianc rhag hon'!

Wrth ystyried dyfodol ynni a chynhesu byd-eang, 'Mae pob plaid ar chwâl a'r arbenigwyr yn rhanedig; does yna ddim cynllun credadwy, poblogaidd', meddai'r Athro Gareth Wyn Jones, gan ychwanegu – 'Onid oes cyfrifoldeb arnon ni, yn unigolion ac yn gymunedau? ...

PRIN bod modd darllen papur, yn arbennig y colofnau llythyron, heb sylweddoli dyfnder y gwrthwynebiad i bron pob cynllun ynni newydd.

Mae'r elyniaeth i felinau gwynt ar y tir ac, i raddau llai, yn y môr, yn ddihareb. Mae lobi groch yn erbyn ynni niwclear ym Môn. Dw i'n deall bod y corff newydd yn lle Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gyndyn o bechu lobi ddylanwadol y pysgotwyr gyda phrosiectau trydan hydro.

Mae eraill yn bytheirio yn erbyn unedau photo-foltaig 'hyll' ar ein toeon - ffermydd haul yn waeth byth. Pan fydd sôn am godi Treulwyr Anaerobig ar ffermydd, bydd stŵr; mae llosgyddion yn codi helynt; pentref Balcombe yw canolbwynt y protestio yn erbyn 'ffracio'; mae gwrthwynebiad chwyrn i lo brig ac mae lobiau cryf yn amddiffyn pob rhywogaeth o fwsogl ac aderyn a phob tirwedd.

Mae pob plaid ar chwâl a'r arbenigwyr yn rhanedig; does yna ddim cynllun credadwy, poblogaidd.

Mae'r broblem sylfaenol a'i hoblygiadau'n glir. Gan gamddyfynnu Parry-Williams - "ni allwn ddianc rhag hon".

CADARNHAU CYNHESU BYD-EANG

Yn y byrdymor bydd canran o'n hen bwerdai'n cau a fydd dim digon i gadw'r goleuadau'n llosgi a'n diwydiannau'n troi. Mae perygl o fewnforio tanwydd o wledydd ansad a, dros y degawdau, does dim modd osgoi sialens anferth newid hinsawdd.

Mae disgwyl y bydd adroddiad newydd y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd (IPCC) yn gynnar yn yr hydref yn cadarnhau bod cynhesu byd-eang yn digwydd a'u bod 95% yn sicr mai ni, y ddynoliaeth, sy'n gyfrifol.

[Gweler 5ed Adroddiad yr IPCC, Climate Change 2013 – the Physical Science Basis - <http://www.ipcc.ch/report/ar5/wg1/>]

Fe fydd rhai, yn arbennig yr asgell dde, yn wfftio ac yn cribo trwy'r ddogfen am wallau. Ond y mwya' yr ydw i'n chwilota, y mwya' yr ydw i'n cael fy argyhoeddi o ddifrifoldeb y broblem. (Eto, o fod yn wyddonol, rhaid cydnabod mesur o ansicrwydd, yn benna' oherwydd cymhlethdodau ac anwadalwch ein Daear.)

Yn ei lyfr **Without the hot air**, mae David Mackay yn amcangyfri' potensial holl ffynonellau adnewyddadwy ein hynsoedd ac yn casglu - gyda rhagdybiaethau carlamus - nad ydyn nhw'n ddigonol.

Er enghraifft, mae'n tybio y byddai cael sribyn o dyrbinau 4km o led rownd yr holl arfordir bas [dan 50m] werth 16kWawr y pen y dydd a sribyn 9 km yn y dŵr dyfnach yn cynhyrchu 32 kWawr.

Hyn heb ystyried gofynion eraill ar ein moroedd na'r gost na'r ffaith bod gwynt yn ysbeidiol. Er mwyn cynhyrchu 50kWawr y person y dydd gyda PV gydag effeithlonrwydd o 10%, meddai, rhaid gorchuddio 5% o holl wyneb gwledydd Prydain!

DYW OEDI DDIM YN DDERBYNIOL

Neges Mackay yw hyn: mae'n debygol na fydd yn dderbyniol dibynnu ar ffynonellau adnewyddadwy 'cartref', heb leihau'n sylweddol iawn ar ein defnydd o ynni.

Mae'r opsiynau'n gyfyngedig. Bydd rhai'n anwybyddu, eraill yn gwadu, eraill yn disgwyl gwyrrth dechnolegol. Pawb am drosglwyddo'r broblem i rywun neu i ardal arall.

Mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos yn glir nad yw oedi'n dderbyniol. Beth felly mae llywodraeth am ei wneud - gorfodi, llwgrwobrwyo, dibynnu ar ynni haul o'r Sahara?

Onid oes cyfrifoldeb arnon ni, yn unigolion ac yn gymunedau? Pa un sydd well gennych chi, teithio mewn 4x4, hedfan i Sorrento ar wyliau, neu dderbyn melinau gwynt ac ynni niwclear, neu fyw ar lai?

Byw ar lai - torri ein defnydd o ynni, a'r gost, a'r risg! Yn sicr mae modd byw yn iach ac yn ddedwydd ar lai. Perygl yw meddwl bod ynni'n hawl di-gyfrifoldeb a di-ganlyniad.